# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Fronhaul**

**Fronhaul**
**Heol yr Orsaf**
**Sanclêr**
**Caerfyrddin**
**SA33 4BQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

31/5/2022

***Llywodraeth Cymru ©  Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Fronhaul

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Fronhaul and Brookfield Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 1 Gorffennaf 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydyw. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sydd wedi ymgartrefu yn Fronhaul, yn y tymor hir a'r tymor byr, yn cael cymorth gan weithwyr sy'n llawn cymhelliant ac sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan dîm rheoli profiadol.

Mae'r gweithwyr gofal yn ymdrechu i wneud eu gorau dros y bobl y maent yn gofalu amdanynt ond gallai mwy o ffocws ar adsefydlu wella llesiant y bobl ymhellach.

Mae rhai trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i fonitro ansawdd ond gallai rhai gwiriadau ansawdd ychwanegol fod yn fuddiol gan na nodwyd bod rhai bylchau mewn cofnodion.

## Llesiant

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Mae’r gweithwyr gofal yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon ac yn hyderus y bydd eu rheolwyr yn cymryd y camau priodol i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu.
Cedwir y cartref dan glo er mwyn atal unrhyw fynediad heb awdurdod, ac mae'n ofynnol i ymwelwyr ddangos cerdyn adnabod a llofnodi llyfr ymwelwyr. Mae'n ofynnol i ymwelwyr ddarparu tystiolaeth o brawf llif unffordd negatif a chael eu tymheredd wedi'i gymryd.

Gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt ond mae mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â phobl ac i ganolbwyntio mwy ar adsefydlu. Mae’r gweithwyr gofal yn gwerthfawrogi'r amser sydd ganddynt i'w dreulio gyda’r bobl ac yn cael eu cymell gan y cyfleoedd sydd ganddynt i wneud gwahaniaeth i’r bobl. Mae’r gweithwyr gofal yn falch eu bod yn gallu cefnogi’r bobl i wneud pethau y maent am eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau megis teithiau i ffwrdd o'r cartref a chael mynediad at gyfleusterau lleol megis nofio; mynd am dro a mynychu eglwys.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cyfrannu i ryw raddau at lesiant y bobl. Mae'n gyfforddus ac yn lân yn bennaf, ond byddai'n elwa ar rywfaint o waith cynnal a chadw ac ailaddurno.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli a'i redeg gan weithwyr gofal a rheolwyr sydd â gwerthoedd cyffredin am ofal sy'n canolbwyntio ar y person. Mae’r gweithwyr gofal yn dweud bod y rheolwyr yn *“anhygoel”.* Siaradodd un gweithiwr gofal yn gadarnhaol am weithio yn Fronhaul a dywedodd ei fod yn *“teimlo’n gartrefol”* yn fuan ar ôl dechrau gweithio yno.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl wneud rhai pethau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd un person wrthym ei fod yn hoffi chwarae gemau a gwelsom ef yn ymgysylltu â'r gweithwyr yn chwarae gêm o'i ddewis. Ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, roedd rhai pobl yn treulio amser i ffwrdd o'r tŷ. Dywedodd rhai pobl wrthym eu bod yn hoffi treulio amser yn y tŷ a'u bod yn hapus yn eu hystafelloedd neu'r ardaloedd cymunol.
Mae'r gwasanaeth yn rhan o brosiect gardd gymunol ac mae'n rhan fawr iawn o'r gymuned leol.

Mae'r cyfleoedd ar gyfer adsefydlu yn gyfyngedig. Er mai'r cynlluniau yw i rai pobl symud ymlaen i fyw'n fwy annibynnol, ni welsom lawer o dystiolaeth o unrhyw adsefydlu gweithredol. Dywedodd un person wrthym *"Maen nhw (y gweithwyr gofal) yn ei wneud e"* pan ofynnwyd iddynt am eu cyfrifoldebau am gadw eu hystafelloedd yn daclus, dywedodd un arall fod y gweithwyr gofal yn *"ei wneud e"*, a dywedodd trydydd person hefyd bod y gweithwyr gofal yn *"gwneud fy ngwely"*. Dywedodd un person wrthym ei fod weithiau yn helpu yn y gegin, a dywedodd un arall ei fod wedi helpu i wneud cacennau dros y Nadolig. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym fod un person weithiau yn paratoi ei frecwast ei hun a bod un arall weithiau yn helpu i osod y byrddau. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y pwyslais ar adsefydlu wedi lleihau oherwydd y pandemig ac nad ydynt eto wedi mynd yn ôl i gefnogi'r bobl i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth.
Fodd bynnag, dywedwyd wrthym am rai cyflawniadau a wnaed gan y bobl. Roedd un person, gyda chymorth gan weithwyr gofal, yn gallu mynychu apwyntiadau meddyg teulu ac optegydd ar ôl blynyddoedd lawer o beidio â gwneud hynny.

Mae pawb sy'n gweithio yn y cartref yn ystyried eu bod yn adnabod y bobl yn dda. Roedd y rhyngweithio'n gyfeillgar ac yn hamddenol ac yn cadarnhau barn y gweithwyr gofal bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r bobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Maent yn uchel eu cymhelliant i ddarparu cymorth o safon uchel i'r bobl.

Cedwir cofnodion gofal yn electronig. Ysgrifennir cynlluniau gofal ar gyfer ystod o feysydd. Mae'r gweithwyr gofal o'r farn bod y cofnodion o gymorth iddynt ac mae ganddynt amser i'w darllen. Maent yn ystyried bod ganddynt y wybodaeth y mae ei hangen i gefnogi'r bobl yn effeithiol. Mae rhai pobl wedi bod yn ymwneud ag ysgrifennu eu cynlluniau gofal ac mae eraill yn hapus i adael hyn i'r staff. Mae'r system yn gymharol newydd ac nid yw rhai gweithwyr gofal yn gwbl hyderus i'w defnyddio. Nid oeddem yn gallu adalw rhywfaint o wybodaeth ond roedd un o'r uwch reolwyr yn gallu gwneud hynny'n hawdd. Mae gan rai pobl ysgrif bortread sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn llawn gwybodaeth.

Mae dealltwriaeth o bwysigrwydd maethiant da. Mae'r rhan fwyaf o'r prydau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio cynhwysion ffres, ac mae'r darparwr wedi cytuno i edrych ar ffyrdd o leihau dibyniaeth ar fwyd wedi'i brosesu. Mae'r gweithwyr gofal yn deall pwysigrwydd helpu'r bobl i wneud dewisiadau iach yn ogystal ag effaith rhai meddyginiaethau ynghyd ag

effaith symptomau negyddol salwch meddwl ar bwysau'r bobl. Mae cynllun gofal un person yn nodi y dylid ei annog i beidio â bwyta byrbrydau yn ogystal â phwysigrwydd bwyta llawer o lysiau.
Mae anghenion iechyd corfforol y bobl yn cael eu diwallu. Mae rhai pobl yn cael cymorth parhaus gan weithwyr iechyd proffesiynol ac mae'r gweithwyr gofal yn disgrifio perthynas dda gyda'r meddyg teulu lleol a nyrsys ardal. Mae'r bobl yn mynychu apwyntiadau deintydd ac optegydd. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod sut i adnabod arwyddion o niwed i'r croen ac i bwy y dylid adrodd unrhyw bryderon o'r fath.
Mae'r holl feddyginiaeth yn cael ei rhoi gan weithwyr gofal. Ychydig iawn o ddefnydd a wneir o PRN (pro re nata - yn ôl yr angen) ac mae cofnodion yn dangos ychydig iawn o fylchau a hepgoriadau.

## Yr Amgylchedd

Mae pobl yn byw mewn cartref sy'n addas i'w hanghenion. Mae pob un o'r ystafelloedd gwely yn ystafelloedd sengl ond nid oes gan yr un ohonynt ystafell ymolchi en-suite. Mae'r ystafelloedd wedi'u haddurno ag eiddo personol at chwaeth y bobl eu hunain ac roedd un ystafell wedi'i haddurno yn barod i berson symud i mewn.

Mae lolfa gyfforddus ac ystafell fwyta ar wahân. Gweithwyr gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth sy'n gyfrifol am ei gadw'n lân ac yn daclus, a gwnaethom nodi nad oes unrhyw arogleuon gwael yn y rhan fwyaf o'r cartref.

Mae'r gegin wedi cael y sgôr uchaf o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac mae'n ymddangos yn lân ac mae digon o gyfarpar yno.

Byddai'n fuddiol i'r cartref wneud rhywfaint o waith cynnal a chadw ac atgyweirio mewn mannau. Mae rhywfaint o'r gwaith paent wedi'i ddifrodi; mae rhai rheiddiaduron yn rhydu ac mae angen glanhau to'r heulfan. Mae arogl mwg sigaréts yn y coridor sy'n arwain at yr ystafell ysmygu gan gynnwys yr heulfan a allai ei gwneud yn ardal lai dymunol i'r bobl dreulio eu hamser. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau i wella ac addurno rhannau o'r eiddo.

Mae rhywfaint o le diogel yn yr awyr agored y dywedodd y gweithwyr gofal wrthym ei fod yn cael ei ddefnyddio gryn dipyn. Mae rhai slabiau palmant wedi'u difrodi a allai fod yn berygl baglu i'r bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae rhai trefniadau llywodraethu effeithiol a chadarn ar waith i fonitro ansawdd. Mae'r adroddiad sicrhau ansawdd yn fanwl ac yn ystyried yr hyn y mae'r awdur yn meddwl y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a pha feysydd y mae angen rhagor o waith arnynt. Mae'r adroddiadau a gwblhawyd gan yr unigolyn cyfrifol hefyd yn fanwl ac yn dangos bod barn y bobl a'r rhai sy'n eu cefnogi yn cael eu hystyried.

Mae rhai prosesau ar waith i sicrhau diogelwch. Cynhaliwyd ymarfer tân yn ddiweddar ac mae cofnodion yn dangos bod drysau tân; larymau; Goleuadau argyfwng a diffoddwyr i gyd yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Mae'r gweithwyr gofal o'r farn bod ganddynt yr hyfforddiant y mae ei angen i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn effeithiol, ond byddai rhai yn gwerthfawrogi cael rhywfaint o hyfforddiant pellach mewn iechyd meddwl. Mae'r matrics hyfforddi yn dangos bod rhywfaint o hyfforddiant wedi dyddio. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr hyfforddiant sy'n ymwybodol o'r bylchau ac sydd wedi rhoi proses ar waith i sicrhau bod yr holl weithwyr gofal yn gyfredol.

Penodir gweithwyr yn dilyn proses recriwtio weddol gadarn. Mae ffeiliau staff yn drefnus ac yn hawdd eu llywio, ond nid ydynt bob amser yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae ei hangen. Roedd y geirdaon gofynnol yn y rhan fwyaf o'r ffeiliau y gwnaethom edrych arnynt, ond dim ond un geirda oedd ar gael ar gyfer un aelod o staff. Nid yw gwybodaeth gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob amser yn y ffeiliau ond rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni fod hon yn cael ei chadw'n electronig.

Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedodd un wrthym ei fod "*yn bendant"* yn teimlo ei fod yn cael cefnogaeth dda, yn bersonol ac yn broffesiynol. Disgrifiodd eraill dîm da a theimlad o gymhelliant i wneud eu gorau dros y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio ac yn dweud eu bod yn cael adborth adeiladol gan eu goruchwyliwr. Cynhelir goruchwyliaeth, ond mae rhai arfarniadau wedi dod i ben. Mae'r rheolwr yn cydnabod y bu rhywfaint o lithriad oherwydd y pandemig ond mae ganddo gynllun i fynd yn ôl ar y trywydd iawn gyda hyn nawr.

Mae lefelau staffio yn cael eu pennu, i raddau helaeth, ar y gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y bobl sy'n byw yn Fronhaul. Mae'r bobl yn trafod eu cynlluniau gyda'u gweithiwr allweddol ac mae'r rheolwr yn ysgrifennu'r rotâu i alluogi'r bobl i dreulio amser i ffwrdd o'r tŷ fel y dymunant. Mae'r gweithwyr gofal o'r farn bod ganddynt ddigon o staff ar ddyletswydd a gwelsom fod gweithwyr yn ddifrys a bod yr amgylchedd yn dawel.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/07/2022